**TREFNIADAU DERBYNIADAU YSGOL 2027/2028**
**YMGYNGHORIAD BLYNYDDOL AR DREFNIADAU DERBYN, GAN GYNNWYS NIFEROEDD I'W DERBYN.**

Yn unol ag Adran 89 Deddf Fframwaith a Safonau Ysgolion 1998, rwy'n ysgrifennu i ymgynghori â chi am drefniadau derbyn arfaethedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer 2027/2028. Rhaid i'r ymgynghori ddod i ben erbyn 1af Mawrth 2026 a rhaid i'r trefniadau gael eu pennu erbyn 15fed Ebrill 2026. Yr ymgynghoreion Statudol yw cyrff llywodraethu pob ysgol, yr awdurdodau esgobaethol ac awdurdodau lleol cyfagos. Rhaid i'r ymgynghoriad gynnwys yr holl drefniadau derbyn gan gynnwys pa niferoedd i'w derbyn.

Mae'r trefniadau derbyn arfaethedig i'w gweld yn y ddogfen sydd ynghlwm. Mae niferoedd derbyn i ysgolion hefyd wedi'u hatodi.

Gellir diwygio'r niferoedd derbyn (h.y. nifer y disgyblion y gellir eu derbyn i un grŵp blwyddyn) i adlewyrchu newid mewn adeiladau yn unig. Bydd unrhyw newidiadau a gytunir ar ôl yr ymgynghoriad hwn yn weithredol o fis Medi 2027 ar y cynharaf. **Gan ystyried hyn, os hoffech i'r nifer derbyn ar gyfer eich ysgol adlewyrchu newid yn yr adeiladau, cysylltwch â mi cyn gynted ag y bo modd.**

Cytunwyd ar amserlen dderbyn gyffredin ar gyfer 2027/28 dros dro gyda'n hawdurdodau cyfagos.

Os oes gennych unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r trefniadau derbyn arfaethedig ar gyfer 2027/2028 a wnewch chi roi gwybod i mi erbyn dydd **Gwener 27ain Chwefror 2026**, fan bellaf.

Gellir anfon ymatebion drwy e-bost at derbyniadau@conwy.gov.uk neu gellir eu postio:

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
**Gwasanaeth Addysg (Derbyniadau Ysgol)**
**Blwch Post 1**
**Conwy**
**LL30 9GN**

**SCHOOL ADMISSION ARRANGEMENTS 2027/2028**
**ANNUAL CONSULTATION ON ADMISSION ARRANGEMENTS, INCLUDING ADMISSION NUMBERS.**

In accordance with Section 89 of the School Standards and Framework Act 1998, I am writing to consult with you about Conwy County Borough Council's proposed admission arrangements for 2027/2028. The consultation must be concluded by 1st March 2026 and the arrangements must be determined by 15th April 2026. Statutory consultees are the governing bodies of all schools, the diocesan authorities and neighbouring local authorities. Consultation must cover all admission arrangements, including admission numbers.

The proposed admission arrangements are set out in the attached document. School admission numbers are also attached.

Admission numbers (i.e. the number of pupils that can be admitted to a year group) can only be amended to reflect a change in accommodation. Any changes agreed following this consultation will be effective from September 2027 at the earliest. **Taking this into account, if you would like the admission number for your school to reflect a change in accommodation, please contact me as soon as possible.**

A common timetable for admissions for 2027/28 has been provisionally agreed with our neighbouring authorities.

If you have any comments in relation to the proposed admission arrangements for 2027/2028 please let me have them no later than **Friday 27th February 2026.**

Responses can be emailed to admissions@conwy.gov.uk or they may be posted to:

**Conwy County Borough Council**
**Education Services (School Admissions)**
**PO Box 1**
**Conwy**
**LL30 9GN**